ADERYN MEWN CAWELL

www.abirdinacage.org

A Bird in a Cage / Aderyn Caeth – Gweithdy cyflwyniadol: Amgueddfa Sain Ffagan

12 Chwefror 2014

Amcanion

Cloriannu'r ymateb i ddiwylliant diriaethol yr ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod yng Nghymru.

Dechrau trafodaeth ac ysbrydoli creadigrwydd â deunyddiau o ffynhonnell wreiddiol.

Cyfoethogi'r dehongliad o gasgliadau'r ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod sydd gan Amgueddfa Sain Ffagan.

Methodoleg

Yn sgil cyflwyniad byr, bydd y 25 ymgyfranogydd yn cael eu rhannu'n grwpiau llai. Bydd pob grŵp yn troi o gwmpas pedair gorsaf. Ym mhob gorsaf bydd detholiad o wrthrychau neu ddelweddau sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod yng Nghymru yn ogystal ag aelod o dîm Winding Snake neu guradur o Amgueddfa Sain Ffagan. Gan ddefnyddio nodiadau gludiog, a heb unrhyw wybodaeth am y cyd-destun, gofynnir i'r ymgyfranogwyr osod cwestiynau o amgylch y gwrthrychau. Anogir hwy i nodi'r syniadau, teimladau neu gwestiynau cychwynnol sy'n codi iddynt. Ar ôl gosod yr holl gwestiynau, bydd yr hwylusydd yn eu hateb ac arwain trafodaeth fer.

Bydd y grŵp wedyn yn symud ymlaen at orsaf arall ac ailadroddir y gweithgaredd.

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

First Campus

WINDING SNAKE

University of South Wales
Prifysgol De Cymru